³ Bydd cyfanswm o 1,315 o swyddi'n cael eu creu neu eu diogelu'n uniongyrchol yng Nghymru gan y cynlluniau arfaethedig gan godi i gyfanswm o 2,152 o swyddi o'r gadwyn gyflenwi drwy'r effaith lluosydd.

⁴ Bydd 1GW o ynni a gynhyrchrir ar draws ynni gwynt ar y tir a solar yn pweru 397,173 o gartrefi yng Nghymru gan ddefnyddio modelu gan EDF-R. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, cyfanswm y tai yng Nghymru ganol 2020 oedd 1.38 miliwn. ([Amcangyfrifon aelwydydd: canol-2020 | LLYW.CYMRU](#))

⁵ Bydd 1GW o ynni a gynhyrchrir ar draws ynni gwynt ar y tir a solar yn lleihau carbon o 739,982 tunnell gan ddefnyddio modelu o EDF-R. Bydd 500MW o gapasiti gwynt ar y tir yn lleihau cynhyrchu carbon o 523,567 tunnell. Bydd 500MW o ynni solar yn lleihau cynhyrchu carbon o 216,415 tunnell.

6. Mae'n amlwg bod ein gwaith yn rhoi cyfle gwych i Gymru ac rydym ni'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yng ngwaith rhagorol y Pwyllgor, i hybu eich amcanion a rhoi adborth ar ddatblygiad polisi a chyfeiriad y Llywodraeth.

Yr Ymateb i'r Gwaith Ymchwil Manwl

7. Nod ymarfer Gwaith Ymchwil Manwl Llywodraeth Cymru, a arweiniwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, oedd nodi rhwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy'n sylweddol yng Nghymru a phennu'r camau i'w goresgyn.
8. Rydym ni'n ddiolchgar am y fenter hon gan y Dirprwy Weinidog, ac am awydd Llywodraeth Cymru i ddeall yr heriau y mae datblygwyr ynni adnewyddadwy yn eu hwynebu. Daeth EDF Renewables ynghyd gyda'r diwydiant i roi adborth i'r Dirprwy Weinidog ac rydym ni'n rhannu'r dyhead sydd ganddo i sicrhau bod pobl Cymru yn elwa'n uniongyrchol, yn economaidd ac yn gymdeithasol, ar ddatblygu ynni adnewyddadwy.
9. Rydym hefyd yn croesawu'r dogfennau ychwanegol a gyhoeddwyd yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys Cynllun Sero Net Cymru a'r bwriad i ymgynghori ar darged newydd o 100% o ynni adnewyddadwy erbyn 2035, fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddu.
10. Yn wir, mae'r weledigaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn gadarnhaol, ac mae llawer o waith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth i nodi'r cyfeiriad y mae'n bwriadu i'r diwydiant symud iddo.
11. Fodd bynnag, mae rhai meysydd ac agweddau sylfaenol o hyd yr hoffem dynnu sylw atynt nad ydyn ni'n teimlo bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn ei wneud. Rydym ni'n deall, heb eglurder wrth fynd i'r afael â'r rhain ar fyrder, y gallai'r targedau a'r dyheadau presennol gael eu tanseilio ac y gallai potensial Cymru gael ei anwybyddu.

Seilwaith grid a buddsoddiad

12. Ein pryder yw nad yw argymhellion y Gwaith Ymchwil Manwl ar seilwaith grid yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r rhwystr sylweddol y mae'r grid yn ei achosi ar gyfer datblygu.
13. Mae mynediad cyfyngedig a chapasiti seilwaith grid yn rhwystr sylfaenol ac allweddol i gyflawni sero net yng Nghymru. Ni all fod unrhyw gamargraff: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, neu gynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn digwydd, heb sôn am dargen newydd yn 2035. Ni fydd datblygiad chwaith yn digwydd ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol.
14. O'n safbwyt ni fel datblygwyr, mae'r diffyg ffocws dwys ar ddatrys seilwaith grid yng Nghymru yn tanseilio llawer o'r mentrau a'r trafodaethau cadarnhaol a gafwyd drwy gydol y Gwaith Ymchwil Manwl. Er enghraift, gallai'r potensial ar gyfer datblygu yn y Môr Celtaidd gyfrannu'n helaeth at uchelgeisiau Cymru. Ond heb osod neu atgyfnerthu grid, gellid diystyru terfynnellau yng Nghymru o blaid Lloegr, gan beidio â chadw rhai o'r manteision cymdeithasol ac economaidd gwerthfawr yn ôl y disgwl.

Cynllunio a chydsynio datblygiadau

15. Gan gysylltu â'r adran flaenorol, bydd angen i seilwaith grid newydd neu wedi'i uwchraddio fynd drwy awdurdodau cynllunio amrywiol a fydd yn cymryd amser. Ac i gyd-fynd â hyn, bydd angen i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.
16. O ran ynni gwynt ar y tir, ynni gwynt ar y môr ac ynni adnewyddadwy arall ar y môr/morol, mae angen trefn gydsynio Gymreig gadarn ac iddi adnoddau da ac amserlenni clir ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o berygl o oedi yn y rhaglen ar gyfer prosiectau sy'n symud ymlaen yn llwyddiannus at gais CfD. Rydym ni'n croesawu'r adolygiad pen-i-ben o CNC ac yn falch o'r amserlenni a addawyd ar gyfer ei gyhoeddi.

Cynllun Ynni Cenedlaethol

17. Mae EDF Renewables yn pryderu am yr uchelgais a'r dull o gynhyrchu cynllun ynni cenedlaethol newydd erbyn 2024 a gaiff ei lywio gan gynlluniau lleol. Mae cynyddu cynlluniau ynni lleol, gyda dim ond prosiectau ar raddfa leol, yn annhebygol o gynhyrchu cynllun ynni cenedlaethol sy'n ymgorffori'r cynhyrchu ar raddfa fawr y bydd ei angen i gyflawni sero net.
18. Yr hyn nad yw'n cael ei gyfleo o gwbl yn y Gwaith Ymchwil Manwl na'r argymhellion yw graddfa ddigynsail y cynnydd yn y galw am drydan ym mhob senario sero net. Mae angen i'r Llywodraeth a rhanddeiliaid arfarnu'r cyfnod pontio yn unol â'r galw cynyddol am wefru cerbydau trydan, pympiau gwres a phrosesau diwydiannol, a'r ffaith y bydd sero net yn gofyn am y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau adnewyddadwy sydd ar gael, ble bynnag y bydd yr adnoddau adnewyddadwy hynny'n digwydd bod.

Strategaeth ac uchelgais

19. Rydym ni'n pryderu bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn cyfyngu ar yr uchelgais i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'i hanghenion.
20. Gyda'r galw yn y dyfodol i fod i gynyddu oherwydd gwefru cerbydau trydan, pympiau gwres a gofynion diwydiannol, mae'n debygol y bydd hyn yn fwy na chyflymder y defnydd o ynni adnewyddadwy.
21. Er ein bod yn llwyr werthfawrogi bod angen ystyried datblygu adnewyddadwy, yn gyfrifol ac yn unol â'r cymunedau lletyol, byddai dull gweithredu cyfyngedig o'r fath yn cyfyngu ar dwf diwydiant allweddol yn y dyfodol a fydd yn rhoi enillion cymdeithasol ac economaidd enfawr i Gymru.
22. Ac nid yw'r dull hwn yn cyd-fynd â'r potensial enfawr sydd gan Gymru i allforio cynhyrchu ynni adnewyddadwy i weddill y DU, gan fanteisio ymhellach ar fudd cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chwarae rhan yn y broses o ddatgarboneiddio'r DU.

Cynllun gweithredu sgiliau sero net

23. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, bydd ein cynlluniau yng Nghymru yn sicrhau buddion a chyfleoedd economaidd enfawr i bobl Cymru. Ond mae hefyd budd cymdeithasol enfawr posibl i gymunedau cyfan ac unigolion.
24. Yn EDF Renewables, rydym ni'n rhoi ein cymunedau wrth wraidd ein cynlluniau. Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gwerth ein buddsoddiad mewn prosiectau o fudd uniongyrchol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio gerllaw iddynt.
25. Mae ein prosiectau yng Nghymru yn cefnogi cymunedau'n uniongyrchol gyda brecwastau lleol i gwrdd â chyflenwyr lleol, ymgyrchoedd reciwtio a phrentisiaethau, ymgysylltu lleol â'n fforymau cronfa budd cymunedol, a phartneru ar brosiectau gyda sefydliadau addysg bellach lleol.
26. Rydym ni'n croesawu menter y Llywodraeth i ddatblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net a byddwn yn darparu manylion ar sut y gall ein hesiamplau gefnogi datblygiad y polisi hwn.

Casgliad

27. Mae'r Gwaith Ymchwil Manwl yn gyfraniad pwysig i'w groesawu gan y Llywodraeth wrth osod cynlluniau i gyflawni sero net drwy weithio gyda datblygwyr ynni adnewyddadwy. Mae pethau cadarnhaol sy'n cynnwys y ffocws ar gadw cymaint o fuddion cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru ac i fusnesau a phobl Cymru, adolygiad pen-i-ben o CNC a'r cynllun gweithredu sgiliau sero net.
28. Ond rydym ni'n pryderu am y ffocws a'r uchelgais y mae'r Llywodraeth wedi'u hamlinellu yn yr argymhellion. Hoffem weld mwy o ffocws ar 'yma a nawr'.
29. Y grid yw'r rhwystr mawr, sylfaenol sy'n tanseilio llawer o'r argymhellion. Ac o ystyried y cynnydd yn y galw a'r defnydd yn y dyfodol, mae angen datrys y grid ar frys i ganiatáu ar gyfer capasiti, ac i'r defnydd o ynni adnewyddadwy gwrdd â'r angen hwn.
30. At hynny, nid oes unrhyw sôn gwirioneddol am botensial ynni gwynt ar y tir, ynni solar a storio batris i ddatblygu cymysgedd ynni llwyddiannus a dibynadwy yn y dyfodol. Mae cymysgedd o dechnolegau'n hanfodol a bydd yn sicrhau bod y buddion yn cael eu dal yng Nghymru, yn y dyfodol agos ac yn y tymor hwy.
31. Ac yn olaf, rydym ni'n pryderu bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn gosod yr uchelgais i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'i hanghenion hi yn unig. Mae hon yn senario posibl o ddal i fyny'n barhaus, gyda'r galw'n debygol iawn o fod yn fwy na'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn anffafriol i'r potensial enfawr sydd gan Gymru i ddod yn allforiwr net a'r buddion cymdeithasol ac economaidd enfawr y gall eu cyflawni yn y senario hwn.

Eitem 6.1

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru/ Renewable energy generation in Wales
RE10
Ymateb gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) / Evidence from Welsh Local
Government Association (WLGA)**



RHAGARWEINIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r 3 awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod Tân ac achub yn aelodau cyswllt.
2. Mae CLILC yn sefydliad trawsbleidiol a arweinir yn wleidyddol, gydag arweinwyr pob awdurdod lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor CLILC yn ehangach. Mae CLILC hefyd yn penodi uwch aelodau fel Llefarwyr a Dirprwy Lefarwyr i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.
3. Mae CLILC yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol o lywodraeth leol ac mae'n cael cyngor ganddynt yn aml, fodd bynnag, CLILC yw corff cynrychioliadol llywodraeth leol ac mae'n darparu llais cyfun, gwleidyddol llywodraeth leol yng Nghymru.

Pwyntiau a sylwadau cyffredinol

4. Mae CLILC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr astudiaeth yma o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd ac Isadeiledd. Rhoddir y sylwadau yn dilyn golwg fanwl dan arweiniad Llywodraeth Cymru oedd yn edrych ar rwystrau i gynyddu'r lefel o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu yng Nghymru. Roedd hefyd yn ystyried sut orau i gadw cyfoeth a pherchenogaeth yng Nghymru.
5. Mae CLILC yn llwyr gefnogi'r 'hierarchaeth ynni' o ran lleihau defnydd, gwella effeithlonrwydd ynni a manteisio ar ddefnydd adnewyddadwy wrth i ni geisio symud i

ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil. Gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae CLILC yn cynnal Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer sydd wedi'i ddylunio i gefnogi awdurdodau lleol (Allau) i ddelio nid yn unig â newid hinsawdd, ond hefyd yr argyfwng natur, cyflawni twf ac adferiad gwyrdd, cynhwysol o effaith economaidd Covid a Brexit. Mae'r gwaith ar newid hinsawdd yn cynnwys mesurau lliniaru (leihau carbon) ac addasu (sydd ymisiog pethau eraill yn cynnwys newid ymddygiad). Mae ffocws y gwaith ar y pedwar piler o Fap Llwybr Sector Cyhoeddus i fod yn Net Sero: caffael, cludiant, adeiladau a defnydd tir. Yn y pedwar maes, mae yna rôl hollbwysig i ynni adnewyddadwy.

6. Mae problem **gallu'r grid** y tynnwyd sylw ato yn ystod yr olwg fanwl yn un ohonynt. Mae CLILC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Allau i gefnogi ymdrechion i symud i fflyd o gerbydau trydan. Mae cefnogaeth ariannol wedi cael ei ddarparu i ALI i osod cyfarpar gwefru yn nepos y Cynghorau. Mewn nifer o achosion, mae gallu'r grid wedi cael ei nodi fel problem. Yn rhai o'r achosion yma, mae Allau yn ymchwilio i'r potensial o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle er mwyn goresgyn hyn. Tra bod problemau gyda'r capsiti yn hysbys iawn yng nghanolbarth Cymru, mae diffygion lleol wedi cael eu nodi mewn depos mewn rhanbarthau eraill. Mae cynigion Llywodraeth Cymru i weithio gydag Ofgem i 'weithredu ar sail system gyfan', ac i fynd i'r afael â materion cydysniad yn cael eu croesawu.
7. Mae CLILC hefyd yn cefnogi'r bwriad i elwa o **fanteision cymunedol** lleol o ganlyniad i'r buddsoddiadau a fydd angen digwydd dros y blynnyddoedd i ddod a'r pwyslais ar **arloesi** sydd wedi bod mewn sector sy'n symud yn gyflym. Mae datblygiadau o ran **hydrogen gwyrdd** yn ddiddorol iawn, gydag Allau eisoes yn treialu defnyddio hydrogen mewn cerbydau mwy megis cerbydau casglu ailgylchu. Mewn dosbarth meistr diweddar a gynhaliwyd o dan Raglen Cefnogi Pontio ac Adfer cafwyd cyflwyniad gan Gyngor Ynys Môn a Chyngor Sir Benfro am y gwaith maent yn ei wneud, gyda'r nod o fanteisio ar ffynonellau ynni adnewyddadwy (gwynt, solar a morol), gyda'r bwriad o ddefnyddio hydrogen gwyrdd ar raddfa yn y dyfodol.

Sylwadau byr am yr argymhellion

Argymhelliad 1 - gweledigaeth i o leiaf fodloni anghenion ynni o ddeunydd adnewyddadwy; gweithredu i leihau galw am ynni a manteisio ar fanteision lleol.

8. Cefnogaeth.

Argymhelliad 2 - cynyddu cynlluniau ynni lleol i gynllun cenedlaethol erbyn 2024 i baru cynhyrchu ynni adnewyddadwy gyda'r galw.

9. Mae dau brosiect peilot cynllun ynni ardal lleol eisoes ar waith gyda chyngchorau yng Nghonwy a Chasnewydd, ac mae gwaith tebyg yn cael ei wneud yn Sir Benfro. Fe fydd hi'n bwysig dysgu o'r Cynlluniau Ynni Ardal Lleol yma a gweithio i greu'r darlun ar draws Cymru. Bydd hyn yn cefnogi'r ymdrechion a nodwyd uchod drwy ddarparu gwybodaeth i gefnogi datblygiad isadeiledd y grid. Gobeithio y bydd cyfleoedd yn cael eu nodi yn rhan o'r broses yma i uno cynhyrchiad/cyflenwad lleol gyda galw lleol drwy ddarpariaeth uniongyrchol fel rhan o ddull datganoledig i gyflenwi ynni. Wrth i dechnoleg storio wella, gall datrysiadau o'r fath fod yn fwy ymarferol, gan osgoi colli ynni sy'n gysylltiedig â throsglwyddiad pell ar draws y grid.

Argymhelliad 3: *helpu dinasyddion i leihau galw, gwella effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni i gefnogi'r weledigaeth*

10. Ar ben eu hymdrechion mewnol eu hunain, mae gan AIIau rôl allweddol i'w chwarae yn eu cymunedau ehangach. Er enghraifft, fel yr awdurdod cynllunio lleol, yr awdurdod cludiant a'r corff sy'n gyfrifol am wasanaethau tai a chasgliadau gwastraff ac ailgylchu, gall AIIau ddylanwadu ar ymddygiad lleol mewn sawl ffordd i gefnogi amcanion yr argymhelliad yma.

Argymhelliad 4: *datblygu gwasanaethau cyngor a chyflenwyr/gosod maent yn ymddiried ynddynt*

11. Fel uchod, gall AIIau gefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal drwy eu rolau gwahanol yn cynnwys rheoli/archwiliadau adeiladu ac archwiliadau tai.

Argymhellion 5 a 6 - Grid: *edrych ar opsiynau ar gyfer cysylltiadau grid hyblyg ar gyfer deunyddiau adnewyddadwy a datrysiadau storio ynni; rhoi pwysau ar Ofgem i greu Pensaer System Ynni Cymru*

12. Cefnogaeth (gweler sylwadau uchod).

Argymhellion 7 i 9 - Cydsyniad a thrwyddedu: *adolygu cydsyniad i sicrhau proses amserol; adnabod meysydd adnoddau morol strategol erbyn 2023; symleiddio'r broses o ddatblygu prosiectau'r Môr Celtaidd yn cynnwys dirprwyo pwerau i Gymru.*

13. Mae CLILC yn cefnogi'r mesurau hyn. Un o'r ymrwymiadau a wnaed gan AIIau ac sydd wedi'i gynnwys yn *Cymru Sero Net* ydi adnabod cyfleoedd i ddefnyddio tir sy'n berchen i'r ALI, gan gynnwys y potensial am gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi cael ei wneud gan Wasanaeth Ynni LIC, gan weithio gydag AIIau ar lefelau lleol a rhanbarthol i adnabod prosiectau posibl. Bydd unrhyw beth y gellir ei

wneud i symleiddio'r broses (yn cynnwys trwyddedau) yn cynorthwyo i symud prosiectau posibl yn eu blaen.

Argymhellion 10 - 13 - Cyllid: *edrych ar ffyrdd o dynnu buddsoddiad ychwanegol i lawr; blaenorriaethu perchenogaeth leol a chymunedol; cefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi; edrych ar ddewisiadau i gefnogi drwy ardrethu annomestig a caffael.*

14. Bydd yr holl fesurau yma'n bwysig i'w harchwilio. Mae ALLau wedi edrych ar gyfleoedd i gefnogi buddsoddiad mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy. Mae hyn wedi cynnwys opsiynau megis gwneud ymrwymiadau yn y dyfodol i brynu'r ynni a gynhyrchir o gynlluniau, i fodloni eu gofynion ynni yn y dyfodol. Fe allai hyn ddarparu ffrwd incwm gwarantedig i helpu i ad-dalu costau buddsoddi (e.e. cafodd hyn ei ystyried mewn cysylltiad â'r cynigion gwreiddiol ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe). Bydd unrhyw brynant o'r fath ymlaen llaw yn destun gofynion caffael serch hynny. Gall hyn osod cyfyngiadau ar allu'r ALLau i wneud ymrwymiadau i broiect penodol.

Argymhellion 14-17 - Cynyddu ynni cymunedol a lleol: *adnoddau ychwanegol i gefnogi'r sectorau yma ac adeiladu capasiti; sicrhau cyfraniad i Ynni Cymru gan y sector gymunedol; mynediad gwell i'r ystâd gyhoeddus ar gyfer y sector ynni cymunedol; cynhyrchu canllawiau ar gyd-berchnogaeth*

15. Gall cyfraniad y sector gymunedol helpu i adeiladu cefnogaeth leol a goresgyn ymwrthedd lleol i broiectau lle mae'n bodoli. Mae gan ALLau rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r sector cymunedol a gweithio i fanteisio ar fanteision lleol, yn unol â Chynlluniau Lles. Lle y bo'n briodol, fe ddylai yna botensial hefyd i ALLau gymryd rhan a helpu i ddyylanwadu ar broiectau ar dir nad yw'n berchen i'r ALL ar ystâd gyhoeddus, neu o berthnasedd i'w hardal.

Argymhellion 18-20 - Mwyhau gwerth economaidd a chymdeithasol: *gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â buddsoddiad i borthladdoedd a mwyhau manteision y gadwyn gyflenwi; mwyhau gosod deunyddiau adnewyddadwy ar safleoedd busnes a diwydiannol*

16. Ers peth amser bellach, mae CLILC wedi cefnogi'r syniad o archwilio a manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sy'n ymwneud â phorthladdoedd i wasanaethu diwydiant ar y môr a phrosiectau ynni carbon isel eraill. Mae gwaith ymchwil a wnaed am hyn i Lywodraeth Cymru¹, ac yna i CLILC dros ddegawd yn ôl, yn cyfeirio at fanteision i'r gadwyn gyflenwi, cyfleoedd ar gyfer sgiliau, potensial ymchwil a datblygu a mewnfuddsoddiad. Fe nodwyd mai rhwystrau i ddatblygiad porthladdoedd oedd:

- Isadeiledd porthladdoedd a chyfyngiadau capasiti
- Ansicrwydd dros ba borthladdoedd fyddai'n ffocws ar gyfer buddsoddiad
- Cyfyngiadau cynllunio a materion amgylcheddol.

¹ [Effaith economaidd ynni carbon isel ar borthladdoedd Cymreig | GOV.CYMRU](https://gov.wales/economic-efficiency-carbon-islands-and-coastal-communities)

Argymhelliaid 21 - Arloesi: galw ar Ofgem i lunio rhanddirymiad rheoleiddiol Cymru i alluogi arloesedd model busnes ynni i gefnogi'r argymhellion ehangach.

17. Mae CLILC yn cefnogi'r alwad yma.
-

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â

Tim Peppin

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Un Parêd y Gamlas
Dumballs Road
Caerdydd
CF10 5BF

Eitem 6.2

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

11 Chwefror 2022

Annwyl Llyr,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch, dyddiedig 4 Chwefror 2022. Rwy'n sgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i osod Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2022 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, fe'i gwelwch yn <https://senedd.cymru/media/epydyhxo/ws-ld14943-w.pdf>.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri polisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru fod wedi gwneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 32(3), 37(5), 41(3), 42(3), 54(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu ar blanhigion. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 8 Chwefror 2022 gyda dyddiad cychwyn o 2 Mawrth 2022.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol bod sylwedd y diwygiadau yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Bydd hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau wedi'u crynhoi mewn un offeryn. Credaf nad deddf ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o wneud y newidiadau angenreidiol ac na fyddai chwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ryf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC).

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Papur gan Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd y Grŵp Adferiad Gwyrdd yn dilyn gwaith craffu blynnyddol y Pwyllgor ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2022: diweddariad ar waith y Grŵp Adferiad Gwyrdd

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Dyweddariad gan y Grŵp Adferiad Gwyrdd *Chwefor 2022*

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar waith y Grŵp Adferiad Gwyrdd.

1.0 Cefndir

Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adferiad Gwyrdd at ei gilydd ym mis Mai 2020 i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu mewn perthynas ag adferiad gwyrdd gyda chyflawnader cymdeithasol fel egwyddor ganllaw. Gofynnwyd i'r grŵp hefyd ddatblygu cynllun a rennir i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd. Daeth y Grŵp ag amrywiaeth eang o bartneriaid amlasantiaeth strategol ynghyd i ddatblygu a chefnogi'r gwaith o weithredu blaenoriaethau cyfunol, yn seiliedig ar adfer ar ôl y pandemig.

Nododd [Adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu](#) amryw o gamau gweithredu ymarferol yn seiliedig ar 'alwad am syniadau' gyda chyfanswm o £5.3 miliwn wedi'i ddyrannu, yn bennaf drwy CLILC i awdurdodau lleol a detholiad o brosiectau llai. Roedd yr arian a ddyrannwyd yn cynnwys helpu gyda chlefyd (Chalara) coed ynn (cynlluniau cwympo ac ailblannu), prosiectau bioamrywiaeth a phlannu blodau gwylt. Gwnaed ymdrech sylwedol i weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a Phartneriaethau Natur Lleol. Mabwysiadwyd rhai dulliau arloesol, gyda mewnbwn gan amrywiaeth o ecolegwyr awdurdodau lleol, swyddogion bioamrywiaeth, swyddogion parciau etc, a goruchwyliaeth gan gyfarwyddwyr yr amgylchedd. Mae CLILC ac awdurdodau lleol yn credu bod defnyddio'r cyllid Adferiad Gwyrdd i gyflawni themâu blaenoriaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Cyhoeddwyd adroddiad [Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru](#), sy'n canolbwntio ar argymhellion ymchwil i lywio datblygiad cynllun i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, helpodd y Grŵp i sicrhau £900,000 drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gefnogi Cynaliadwyedd y Sector mewn amrywiaeth o feisydd, yn cynnwys cymorth ar gyfer datblygu sefydliadol fel hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r cynnig ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol hefyd wedi codi o allbynna'u'r grŵp. Bydd Gwasanaeth o'r fath yn system Gymru gyfan sy'n annog pobl i gefnogi adferiad natur, gan weithredu fel platform sy'n cysylltu pobl o bob oed â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, prentisiaethau, cyflogaeth, menter a gwirfoddoli – oll yn gysylltiedig â natur.

1.0 Adolygiad o Adroddiad y Sector Amgylchedd a'r Adroddiad Blaenoriaethau

Caffaelwyd y Ganolfan Gyllid i adolygu cynnydd a wnaed yn erbyn adroddiad [Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru](#) a'r [Adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu](#).

Bydd yr adolygiadau'n rhoi sylw i dueddiadau a mentrau newydd sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn adroddiad [Yr](#)

[Adferiad Gwydd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru](#) ac yn nodi cynnydd a rhwystrau i gynydd a wnaed yn erbyn yr [Adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu](#). Bydd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth a chyfres o gyfweliadau â chynrychiolwyr allweddol yn cael eu defnyddio i goladu amcanion byrdymor, canoldymor a hirdymor newydd.

Bydd adolygiadau'r adroddiadau yn cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

2.0 Y Grŵp Adferiad Gwydd

Mae'r Grŵp wedi cytuno i barhau, gydag ymrwymiad i ddatblygu ar yr egni, y momentwm a'r grym cyfunol a enillwyd o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd sydd am weld y grŵp yn parhau. Bydd y Grŵp yn parhau i gael ei alw gan CNC a'i gyfarwyddo gan yr aelodau.

Mae'r grŵp yn parhau i ddatblygu ei raglen waith a bydd yn dadansoddi argymhellion a chamau gweithredu'r adolygiadau (pwnt 1.0 uchod) er mwyn datblygu ymateb gweithredu wedi'i flaenoriaethu, gan ddiffinio'r mewnbwn a/neu ofynion comisiynu i lywio'r angen am adnoddau. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gwblhau ym mis Mai 2022 ac yn rhoi dealltwriaeth i ni allu diweddarur Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf fel y nodwyd yn y papur 'Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd' (Ionawr 2022).

3.0 Creu 'Adferiad Gwydd: Grŵp Sector yr Amgylchedd'

Sefydlwyd grŵp ar y cyd gan CNC a Llywodraeth Cymru ('Adferiad Gwydd - Sector Amgylchedd Cymru') gyda chynrychiolwyr o'r sector a chyllidwyr, i sicrhau bod y sector yn gallu ymgysylltu a chydweithio'n ystyrlon drwy lywodraethu effeithiol, rhannu risg, a chydgynhyrchu. Bydd y Grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan yr Athro Steve Ormerod ac yn adrodd i'r Grŵp Adferiad Gwydd.

4.0 Gwasanaeth Natur Cenedlaethol

Cyfarfu cynrychiolwyr â'r Dirprwy Weinidog ym mis Tachwedd i ofyn am gefnogaeth i ddatblygu'r Gwasanaeth hwn yng Nghymru. Anogodd y Dirprwy Weinidog y tîm i ganolbwytio ar ddatblygu a disgrifio prosiectau arddangos posibl, i'w sicrhau o fanteision cefnogi Gwasanaeth o'r fath. O ganlyniad, gyda Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, cynhyrchwyd papur ynglŷn â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn ymrwymo'n gynnar i gefnogi'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, gan nodi amrywiaeth o weithgareddau ble gellid gwireddu uchelgeisiau ar gyfer Gwasanaeth ledled y rhanbarth, gan amlinellu senarios posibl yn seiliedig ar bedair lefel o gyllid sydd ar gael. Mae sefydliadau eraill sydd ar y llwybr 'mabwysiadu'n gynnar' yn cynnwys Dŵr Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro, Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bellach, mae tîm y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am ddatganiad o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Gwasanaeth o'r fath yng Nghymru a'i didordeb yn ddo. Bydd hyn yn hybu'r posibiliadau o ran sicrhau cyllid gan sefydliadau ar gyfer parhau i gydgynllunio, datblygu a phrofi'r cynnig i gael Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru. Bydd tîm y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol nawr yn adeiladu ar y buddsoddiad ymarferol sylweddol a wnaed eisoes, gyda'r camau nesaf yn cynnwys cynnull grŵp arweinyddiaeth strategol, o bobl a sefydliadau sydd ag ymrwymiad ymarferol i'r gwaith, ac i baratoi ceisiadau am gyllid.

5.0 Gwaith Adferiad Glas gan WMAAG

Mae cynigion Adferiad Glas wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith drwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) – y grŵp rhanddeiliaid ar gyfer yr amgylchedd morol. Mae yna gysylltiadau clir amlwg rhwng yr adferiad glas a gwydd, ac felly mae'n rhaid i ni sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl wrth i ni symud ymlaen.

Yn dilyn papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf a chyfarfod dilynol a gynhaliwyd ym mis Medi, rhoddwyd cyfarwyddiadau i swyddogion i weithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu'r dull ymhellach. Cynhaliwyd gweithdy ddechrau Rhagfyr ac mae sesiwn ddilynol wedi'i chynllunio ar gyfer 16 Chwefror.

Mae'r Gweinidog yn ystyried cynnig y dylid penodi Gweinidog i arwain y gwaith hwn yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid.

Eitem 6.4

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Chwefror 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Yn fy llythyr atoch ar 4 Chwefror, dywedais y byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor pan oedd y dogfennau ar gyfer y tri fframwaith heb eu cyhoeddi o fewn fy mhortffolio ar gael i'w hystyried.

Gallaf gadarnhau bod Cytundeb Amlinellol y Fframwaith a'r Concordat ar gyfer [Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio \(Nwyon F\) a Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn \(ODS\)](#) bellach wedi'i gyhoeddi.

Ysgrifennaf at y Pwyllgor eto i gadarnhau pryd fydd y dogfennau ar gyfer y ddau fframwaith sy'n weddill, Adnoddau a Gwastraff a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ar gael i'w hystyried.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a Chyfansoddiad y Senedd.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 84

Eitem 6.5

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflwynner a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

Annwyl Gadeiryddion,

25 Chwefror 2022

Ysgrifennaf ymhellach at fy llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2022, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhwng-sefydliadol, i adrodd ar y cyfarfod rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Lywydd COP, y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS. Hefyd yn bresennol roedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Edwin Poots MLA a Llywodraeth yr Alban, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero-Net, Ynni a Thrafnidiaeth Michael Matheson MSP.

Trafododd y grŵp Gweinidogol eu cynlluniau a'u blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn Llywyddiaeth COP y DU a pha gyfleoedd a allai fod ar gyfer alinio a chydlynw camau gweithredu cyn COP27.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James".

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 6.6

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mabon ap Gwynfor AS

15 Chwefror 2022

Annwyl Mabon,

Diolch i chi am eich llythyr a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror.

Mae trafnidiaeth yn faes allweddol i'r Pwyllgor, a byddwn yn cadw eich gohebiaeth mewn cof wrth inni ystyried ein rhaglen waith.

Efallai y cawn hefyd gyfle i godi'r materion hyn â Gweinidogion Cymru yn ystod sesiynau craffu cyffredinol.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Tudalen y pecyn 86

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Lee Waters AS

Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

15 Chwefror 2022

Annwyl Ddirprwy Weinidogion,

Mae'r Llywydd wedi anfon eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021 ynglŷn â'r adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom ymlaen at y Pwyllgor.

Cafodd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft ei ystyried gan y Pwyllgor ar 3 Chwefror. Ni wnaeth aelodau'r Pwyllgor godi unrhyw bryderon ynglŷn â chynnwys y Memorandwm.

Rwy'n ddiolchgar i chi am sicrhau bod y Pwyllgor wedi cael cyfre i wneud sylwadau ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 6.8

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

Children, Young People and Education Committee

Cadeiryddion y Pwyllgorau

18 Chwefror 2022

Canfyddiadau ymgysylltiad ynghylch blaenoriaethau'r Chweched Senedd â phlant a phobl ifanc

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Fel rhan o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym i lywio ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, cynhaliodd tîm ymgysylltu â dinasyddion y Senedd gyfres o weithgareddau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar ein rhan. Diben yr ymgysylltiad hwnnw oedd dysgu mwy am yr hyn sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc.

Clywodd y tîm ymgysylltu â dinasyddion yn uniongyrchol gan 127 o blant ar draws saith sesiwn. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru, mewn ystod amrywiol o leoliadau. Roeddent yn targedu plant yr ydym ni fel Pwyllgor yn ei chael yn anodd eu cyrraedd, megis plant o dan 12 oed a phlant o deuluoedd incwm isel. Adroddodd y tîm eu canfyddiadau inni yn ystod ein cyfarfod ar 27 Ionawr.

Cefais i a'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor ein synnu gan yr eglurder a oedd gan y plant a'r bobl ifanc i gyfleo eu pryderon a'u blaenoriaethau. Daeth themâu clir i'r amlwg o'r gwaith ymgysylltu, gyda manylion sy'n adlewyrchu amrywiaeth y plant a gyfrannodd a'u profiadau gwahanol o'r byd o'u cwmpas. Trafodwyd datgoedwigo, sbwriel, ynysu cymdeithasol, iechyd meddwl, tlodi, amseroedd aros ysbytai, seilwaith, amrywiaeth, y cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy. Roeddent yn rhannu eu safbwytiau – a'u gweledigaethau ar gyfer Cymru well – yn glir ac yn groyw.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, roeddem yn teimlo'n gryf y dylem ei rannu â chi. Mae popeth a godwyd gan y plant a phobl ifanc yn uniongyrchol berthnasol i o leiaf un Pwyllgor arall o'r Senedd. Mae llawer ohono'n berthnasol i wahanol Bwyllgorau, a dylai rhywfaint ohono atseinio gyda phob un ohonom.

Rwyf felly wedi atodi adroddiad y tîm ymgysylltu â dinasyddion i'r llythyr hwn. Gobeithiaf y gallwch ddod o hyd i'r amser i'w ystyried a chynnwys ei ganfyddiadau yn eich gwaith.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddPlant@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddPlant

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddChildren@senedd.wales

senedd.wales/SeneddChildren

0300 200 6565



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Tudalen y pecyn 88

Rwy'n sylweddoli bod cymaint o waith i bwylgorau'r Senedd ei wneud, a gall ymddangos fel pe na bai byth ddigon o amser i wneud y cyfan. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg felly'n croesawu'n fawr unrhyw gyfleoedd i gydweithio lle bo hynny er budd inni gyd fel pwylgorau – neu'n bwysicach, er lles plant a phobl ifanc Cymru.

Yn gywir



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion: Blaenoriaethau pobl ifanc ar gyfer y Pwyllgor yn y Chweched Senedd - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ionawr 2022



Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon